

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

8/9/2016

Presennol: Y Dirprwy Faer Dorothei Evans, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Maer Edith Roberts, Sharon Evans ac Eifion Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Gorffennaf 2il, 2016.
5. Derbyniwyd adroddiad y Clerc am faterion gweithredu yn codi o gofnodion Gorffennaf sef:
 - a. Rhoddwyd hysbyseb yn y Cyfnod am dendrau ar gyfer cyflenwi coed Nadolig
 - b. Er ysgrifennu sawl tro, ni chafwyd ymateb i'r gŵyn nad ydyw biniau stryd yn cael eu gwagio am ddyddiau ar ôl Gŵyl Banc. Cytunwyd i ysgrifennu eto.
 - c. Ymatebwyd ar ran Cyngor Gwynedd i nifer o gwynion am doiledau'r Grŵn yn ystod yr haf.
 - d. Diolchwyd am ymateb Cake Crew parthed pryderon y Cyngor am ddiogelwch wrth y ffatri ac am barcio ar balmentydd. Cytunwyd i ateb trwy ddweud nad y Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am ffioedd parcio'r Grŵn ond bod modd prynu tocynnau tymor gan Gyngor Gwynedd.
6. Cynhaliwyd trafodaeth ar safbwyntiau a chwestiynau ar drefniadau'r Triathlon. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Alun Price a Tony Parry i ymuno gyda chynrychiolwyr o Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i gyfarfod gyda'r trefnydd. Cytunwyd i holi am farn a gwahodd cynrychiolwyr o'r Grŵp Busnes a Siopau i'r cyfarfod hefyd.
7. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Roedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn falch o allu adrodd fod y gwaith ar safle Ysgol y Berwyn ac ar y cae 3G yn mynd rhagddo yn dda. Mae'r drefn newydd yn y llyfrgell yn gweithio'n dda. Cytunodd y Cynghorwyr i wahodd Mr Julian Birley i'r cyfarfod nesaf i adrodd ar y datblygiadau diweddaraf gyda'r trê'n bach.

Canmolodd y Cyngorwyr y contractwr ar safle Ysgol y Berwyn am wneud gwaith taclus.

8. Materion Parc Cenedlaethol Eryri:

Cadarnhawyd ceisiadau cynllunio diwedd Gorffennaf:

- i. NP5/53/L316F sef newidiadau i gynllun wedi ei gymeradwyo yn 2003 - Fferm y Llew Coch, Heol Pensarn
- ii. NP5/53/CA316G sef dymchwel sgubor yn Fferm y Llew Coch, Heol Pensarn
- iii. NP5/53/522A sef cynllun diwygiedig 19 Craig y fron, Y Bala

Cymeradwywyd Ceisiadau Cynllunio:

- i. NP5/53/184B Codi Estriad i Glinig yr Hafan
- ii. NP5/53/LB301G Plas yn Dre: Newidiadau mewnol i drosi llawr cyntaf ac ail yn llety gwesty; darparu grisiau dianc ychwanegol i'r llawr uchaf
- iii. NP5/53/LB301H Plas yn Dre: newid defnydd llawr 1 a 2 o fwyty i lety gwyliau (gwesty)

Derbyniwyd gwybodaeth fod caniatâd cynllunio wedi ei roi i

- i. NP5/53/544 sef adeiladu estyniad ochr i 7 Cae Gadlas
- ii. NP5/53/522A bwriad i godi garej 19 Craig y Fron
- iii. NP5/53/L316F a NP5/53/CA316G sef ceisiadau'r Llew Coch (gw. uchod)

Cytunwyd i arddangos y poster "Galwad am ddarpar safleoedd" i sylw tîrfeddianwyr Cytunodd Alun Price i ystyried ar ran y Cyngor yr Adolygiad i Gynllun Datblygu Lleol Eryri. Cytunodd Dilys Evans, Eluned Jones a John Williams i roi ystyriaeth ar ran y Cyngor i asesiad o fannau agored yn y dref.

9. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Nodwyd derbyn ail hanner Praesept 2016-17.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am godiad yn nhreth yr Yswiriant.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am newid i'r llog banc yn y Cyfrif Cadw.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ddechrau cynllun pensiwn ar gyfer cyflogai'r Cyngor ; mae hwn wedi ei gyflwyno i sylw Hill & Roberts ar 30/7/16.
- vi. Ystyriwyd anfonebau'r mis:
 - a. Cadarnhawyd archeb am fân ddefnyddiau swyddfa.
 - b. Cytunwyd i wneud ad-daliad i Cyngor Cymuned Llanuwchllyn am hanner ffi Cynhadledd SLCC.
 - c. Cyflog y Clerc (Gorffennaf ac Awst)
 - d. Rhent cyfarfodydd yn yr Henblas
- vii. Cytunwyd i drefnu cyfarfod o'r is bwyllgor cyllid.

10. Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd:

- i. Toiledau – trafodwyd cynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer rhannu cost cadw toiledau ar agor yn ystod y flwyddyn 2017-18. Gan fod Partneriaeth Penllyn wedi llwyddo i fod yn rhan o gynllun “Arloesi Gwynedd Wledig”, ac oherwydd bod darparu gwasanaethau law yn llaw gyda’r Cyngor Tref yn rhan o’r cynllun hir-dymor hwnnw, cytunwyd i fynegi dymuniad i weld Cyngor Gwynedd yn cyd-weithio’n bositif ar fyrder gyda Phartneriaeth Penllyn.
- ii. Ystyriwyd y bwriad i osod Cyfyngiad Cyflymder wrth Bont Mwnwgl y Llyn. Cytunwyd a hyn ond awgrymwyd hefyd y dylid ymestyn y cyfyngiad i hanner ffordd fyny rhiw Tŷ’n Gwrych. Diolchwyd i’r Cynghorwyr Sir Lleol am eu hymdrechion i sicrhau’r cyfyngder cyflymdra hwn.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am gau Heol Arenig (dros dro o 5/9/16) er mwyn cwblhau gwaith yno.
- iv. Trafodwyd cais gan Gyngor Gwynedd am ymateb parthed biniau halen. Cytunwyd i ateb trwy ddweud fod trafodaethau’n parhau rhwng Partneriaeth Penllyn a’r Deilydd Portffolio.

Un Llais Cymru:

Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant a nodwyd diddordeb mewn mynychu’r cwrs “Deall y Gyfraith” a gynhelir ar 30/11/16 yn Y Bala.

Rhannwyd gwybodaeth am y Cyfarfod Ardal nesaf.

Nodwyd y Cynigion i’r Gynhadledd.

Arall:

Nodwyd derbyn gwybodaeth am hyfforddiant ar Ynni Cymunedol (Bethesda 15/9/16)

11. Partneriaeth Penllyn:

Croesawyd Huw Antur i’r cyfarfod ac fe roddodd gyflwyniad ar waith Partneriaeth Penllyn ar hyd y saith mlynedd diwethaf, ac ar Gwmni Pum Plwy Penllyn a gododd yn ei sgil dair blynedd yn ôl. Ffurfiwyd y Partneriaeth yn wreiddiol oherwydd bod hawliau eang gan gynghorau cymuned i weithredu, ond nid oes ganddynt y capasiti i gyflawni hynny. Er mwyn ceisio darparu gwasanaethau sydd yn gallu ymateb yn sydyn i alw lleol, fe ffurfiwyd Partneriaeth Penllyn. Erbyn hyn mae’r rhod wedi troi ac mae Cyngor Gwynedd yn daer eisiau gweld cymunedau yn darparu gwasanaethau yn lleol. Ond yn anafus, mae gwasanaethau’n costio ac nid ydynt yn cynhyrchu incwm. Mae Partneriaeth Penllyn newydd dderbyn y newyddion eu bod wedi llwyddo i gael cefnogaeth Arloesi Gwynedd Wledig a bydd hyn yn fodd o helpu’r cynghorau lleol rhag colli mwy fyth o wasanaethau. Un o lwyddiannau mwyaf Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf hyd yn hyn yw llwyddo i gael defnyddio hen adeilad gwag y Cyngor Sir, sef yr Henblas, a’i adnewyddu trwy arian grant. Erbyn hyn mae nifer fawr o gyfarfodydd, arddangosfeydd, cyrsiau dysgu a chyfarfodydd cynghori yn digwydd yn yr Henblas, ac mae’n gartref i sawl busnes-un-person. Mae’r gofod a gynigir yn gyfrwng felly i alluogi pobl ifanc y fro i aros yn yr ardal ac i gynnal eu busnes - busnes rhyngwladol mewn un achos - o’r Henblas.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Huw Antur am ei gyflwyniad ac am ei weledigaeth a'i waith caled ar hyd y blynyddoedd.

Arwyddwyd y Cytundeb Atodol rhwng y cynghorau tref a chymuned â Chyngor Gwynedd.

12. Asedau'r Cyngor - derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Mae'r gwaith ar ddiogelu wal gynnal y Domen wedi ei gwblhau yn dda iawn. Cytunwyd i ofyn am wneud gwaith cynnal a chadw yno cyn y gaeaf. Cysylltwyd gyda'r Heddlu am gamddefnydd o'r Domen gan rai, a diolchwyd i'r Heddlu am osod Rhybudd na ddylid mynd ag alcohol na chyffuriau yno ac na ddylid gweryslla yno gan ei fod yn ardal gyhoeddus. Cytunwyd i anfon at yr Heddlu i ofyn iddynt weithredu ar y rhybudd hwn.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref :

- Roedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan eisoes wedi gweithredu ar y gŵyn a dderbyniwyd am lygod mawr yn y cae tu ôl i Heol Aran.
- Cynigiodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i drwsio'r arwyddbost "hynafol" wrth gofgolofn Tom Ellis

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6/10/16

Amser gorffen: 10.00p.m.